


Gwelliannau i Strwythur Argae Parc y Rhath



Mae Llyn Parc y Rhath yn gronfa ddŵr gafodd ei chreu drwy osod argae i'r de a'i fwydo gan Nant Fawr. Mae Cyngor Caerdydd yn gyfreithiol gyfrifol am gynnal a chadw Argae Parc y Rhath, sy'n eiddo cyhoeddus, ac mae angen archwiliadau rheolaidd dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr (1975).

Canfu'r arolygiad diweddaraf o'r gronfa ddŵr na fyddai gorlifan yr argae, sef y rhaeadr ger y caffi, yn ddigon mawr i wrthsefyll llifogydd eithafol a allai, yn ddamcaniaethol, ddigwydd, ac felly mae angen gwelliannau nawr.




Ynglŷn â'r cynlluniau



Ar hyn o bryd rydym yn archwilio'r opsiynau gorau i sicrhau effeithiolrwydd yr argae yn y dyfodol a sicrhau y gall cenedlaethau'r dyfodol fwynhau un o barciau mwyaf poblogaidd Caerdydd yn ddiogel.

Penodwyd Arup, ymgynghorwyr peirianeg blaenllaw, i gynnal astudiaeth i nodi'r opsiynau gorau. Cynhelir yr astudiaeth fanwl hon yn hydref 2021 a gall olygu tarfu dros dro ar fynediad i'r promenâd ar draws yr argae, man chwarae'r plant a llwybrau eraill.



Amserlen Arfaethedig ▼



Meh 21 - Tach 21

Arolygon a Dylunio
Amlinellol



Awst 21 - Tach 21

Ymgysylltu â'r Gymuned
a'r Rhanddeiliaid



Tach 21

Ymchwiliad Tir



Hydref 21 - Gwanwyn 22

Dyluniad Manwl



Gwanwyn 22 – Haf 22

Ymgysylltu Pellach â'r
Gymuned a Rhanddeiliaid



Haf 22 - Hydref 22

Penderfyniad Cynllunio



Hydref 22 - Gwanwyn 24

Adeiladu

Cau'r parc


Fel rhan o'r astudiaeth i bennu'r opsiynau gorau ar gyfer gwaith i'r argae, cynhelir ymchwiliad tir ym mis Tachwedd 2021. Bydd hyn yn golygu bod tyllau o wahanol faint a siâp yn cael eu palu yn yr argae ac wrth ochr y gorliffan, fel y gellir astudio cyfansoddiad y ddaear. Caiff rhai tyllau eu cloddio â llaw ac eraill gan beiriannau arbenigol.

Bydd y deunydd a gloddir allan yn cael ei ddadansoddi mewn labordy a defnyddir

y canlyniadau i ddatblygu'r dyluniad. Caiff y tyllau eu llenwi'n ôl i mewn a sicrhair bod y wyneb yn edrych fel y mae ar hyn o bryd. Bydd angen cau'r promenâd ar draws crib yr argae i fynediad cyhoeddus drwy gydol yr ymchwiliad, a bydd ardaloedd eraill drwy'r parc ar gau am gyfnodau byrrach. Byddwn yn hysbysu trigolion, busnesau lleol a rhanddeiliaid am ddyddiadau penodol yn nes at amser y gwaith sy'n dechrau ar y safle.

ALLWEDD:

Lleoliad twll archwiliadol dangosol:

-  Pwll neu dwll turio prawf
-  Ffos brawf
-  Cyfansawdd dangosol lleoliad


Yr amserlen cyfnodau cau a agwelir:

-  1 - 2 ddiwrnod ar y tro
-  2 - 3 wythnos (ar gyfer y cyfnod ymchwilio cyfan)

Nodiadau:

Dangosir graddau'r cyfnodau cau yn ddangosol.

Mae hyd y cyfnodau cau yn dibynnu ar amodau'r tir a'r cyfyngiadau y deir ar eu traws. Er enghraifft, gallai dod ar draws tir caletach na'r disgwyl neu wasanaethau annisgwyl arwain at gau am gyfnod hwy.



Ein hymrwymiad i chi



Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'r gymuned leol i sicrhau eich bod yn deall y gwaith dan sylw. Wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen, cynhelir rhagor o ddigwyddiadau gwybodaeth

cymunedol fel bod trigolion, busnesau a rhanddeiliaid eraill yn parhau i gael eu hysbysu a'r newyddion diweddaraf am y prosiect.

Ble caf i ragor o wybodaeth? ▼

Mae gwybodaeth lawn am y cynigion ar gael ar-lein drwy fynd i:

www.caerdyddawyragored.com/argaeparcyrhath

Cadw mewn cysylltiad ▼

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am y prosiect neu os hoffech dderbyn diweddariadau rheolaidd amdano, cysylltwch â thîm y prosiect.

E-bost: **roathparkdam@grasshopper-comms.co.uk**

Ffoniwch: **02920 130061**